Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 27th November 2017** at 7.05pm

**PRESENT: -** The Deputy Mayor, Councillor J Wynn Jones
Councillors G O Roberts (Acting Chairman)

| | | |
|---|---|---|
| J M Martin | Elin Walker Jones | |
| Owen Hurcum | Enid Parry | J Wyn Williams |
| Keith Jones | Mair Rowlands | H Wyn Jones |
| Colin King | Conor Savage | |

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk
(in the absence of both the Chairman and Vice-Chairman, Councillor G O Roberts remained in the Chair for this meeting)

**138/17 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from His Worship The Mayor Councillor D Hainge, Councillors Les Day, Dylan Fearnley, Medwyn Hughes and Luke Tugwell

**139/17 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None

**140/17 URGENT BUSINESS**
None

**141/17 CHRISTMAS LIGHTS SWITCH-ON**

It was noted that there would be a switch-on of the Christmas lights around the Town Clock at approximately 3.45pm on Saturday 2 December, 2017.

**142/17 PROPOSED CHANGES IN THE REMUNERATION OF MEMBERS OF COMMUNITY AND TOWN COUNCILS**

Members received the report of the Suib-Committee which had discussed the report of the Independent Remuneration Panel for Wales (IRPW). The IRPW had powers over the allowances payable to elected members of Community and Town Councils. Previously the Panel's determinations for Community and Town Councils were permissive and each Council would decide whether to apply the determinations. However under new powers issued by Welsh Government, if the Panel adopt the Determinations following the consultation, they will become mandatory giving the Council no choice but to implement the scheme of payments and provision would have to be made within the budget for a scheme of Members allowances.

It was also noted that Community and Town Councils must also publish a Statement of Payments by 30th September each year. This document details all payments made to elected Members in the previous municipal year.

**RESOLVED**: that in the event of the IRPW's determinations:
(a) becoming law: then theappropriate scheme of Members' Allowances be put in place wef April 2018 and budgetary provision be made in any case for that scenario; and
(b) remaining discretionery: then the Sub-Committee's recomendations be implemented ; thus:-

1) £150 a year to cover telephone, IT and other costs **Recommendation** – do not adopt
2) £500 for up to 3 members with special responsibilities (e.g. a committee chair) **Recommendation** – do not adopt
3) A civic allowance for the Mayor or Chair of the Council **Recommendation** – already in place review as appropriate
4) A civic allowance for the Deputy Mayor or Deputy Chair of the Council **Recommendation** – already in place review as appropriate
5) Reimbursement of travel and subsistence costs when on official business **Recommendation** – already in place review as appropriate
6) A financial loss allowance **Recommendation** – do not adopt
7) Reimbursement of the costs of care for a dependent child or adult of up to £403 a month **Recommendation** – adopt subject to the claim being in writing supported by receipts

**143/17 APPOINTMENT OF INTERNAL AUDITOR**

The Town Clerk reported that following the retirement of the City Council's previous long serving Internal Auditor quotations had been soiught from appropriately qualified or experienced bodies and these were considered carefully by the Committee.

**RESOLVED** that the Gwynedd Audit Service be appointed as Internal Auditors for the financial year 2017/18.

**144/17 WEBSITE/E-MAIL**

The Town Clerk reported that the new web addresses were now in place and working – bangorcitycouncil.gov.wales and cyngordinasbangor.llyw.cymru. Associated with this, the new Councillor emails were also working and were displayed bilingually on the website.

**145/17 PUBLIC CONVENIENCES**

In accordance with previous discussions, the Town Clerk had contacted Gwynedd Council with regard to the future of the public conveniences within the City, as there had been some concern expressed about the City Council's continuing contribution of £10,000 per annum but little or no input. Gwynedd had now agreed to open negotiations on how the City would be best served in future with regard to this service.

Members also commented on how further services could be brought into the debate, however it was imperitive that the future of public conveniences be debated as soon as possible given the budget issue.

**RESOLVED** : that the Town Clerk open negotiations on options for the future fuding and service provision of public conveniences within the City.

**146/17 PIER UPDATE – CAPITAL PROJECT**

The Town Clerk reported progress on the Pier restoration project and that mechanical cleaning work had commenced on the steelwork. He also reported that a joint meeting of the Pier Client Group and Council's Financial Approvers had taken place to discuss in detail the preparation, work so far, lessons learned, public perception, sandblasting and welding contracts amongst others.

It was noted that many contracts were now coming into place following approval, for scaffold,sandblasting/mechanical cleaning, welding and paint supply and spraying. Financial details were approved by the Group including consultancy fees, surveys and overall payment of invoices, so far, of £97,358.64 and committed expenditure, so far, of a further £282,340.72.

**RESOLVED** : that the report be received, progress and finances noted and actions approved.

**147/17 REQUEST FOR FINANCIAL ASSISTANCE & FINANCIAL DONATIONS**

The Clerk reported that two completed applications for financial assistance had been received.

**RESOLVED** that this matter be deferred for consideration to the next meeting in January 2018.

**148/17 INVOICES FOR PAYMENT**

The Committee received:-

a) Invoices - payment of latest Schedule of Invoices
b) 2nd Quarterly Accounts updating records for months 1-6.

It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £15,491.73 had been approved, and a few questions and answers were received and noted on the Accounts details up to 30 September 2017.

**RESOLVED** that the payments be noted and the Quarterly Accounts be received.

---

The Meeting finished at 7.40 pm

Cofnodion y **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Nos Lun, 27ain o Dachwedd 2017** am 7.05 y.h.

**PRESENNOL :-** Y Dirprwy Faer y Cynghorydd J Wynn Jones
Cynghorwyr G O Roberts (Cadeirydd dros-dro)

| | | |
|---|---|---|
| J M Martin | Elin Walker Jones | |
| Owen Hurcum | Enid Parry | J Wyn Williams |
| Keith Jones | Mair Rowlands | H Wyn Jones |
| Colin King | Conor Savage | |

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid
(yn absenoldeb y Cadeirydd a Is-Gadeirydd, parhaoedd y Cynghorydd Roberts yn y Gadair ar gyfer y cyfarfod hwn.)p

**138/17 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Ei Deilyngdod y Maer y Cynghorydd D Hainge, Cynghorwyr Les Day, Dylan Fearnley, Medwyn Hughes a Luke Tugwell

**139/17 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim.

**140/17 MATERION BRYS**
Dim**.**

**141/17 TROI'R GOLEUADAU NADOLIG YMLAEN**

Nodwyd y byddai'r goleuadau Nadolig yn cael eu goleuo am tua 3.45pm ddydd Sadwrn 2 Rhagfyr, 2017.

**142/17 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG YNG NGHYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU CYNGHORAU CYMUNED A THREF**

Derbyniodd yr aelodau adroddiad yr Is-Bwyllgor a fu'n trafod adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Roedd gan y Panel bwerau dros y lwfansau sy'n daladwy i aelodau etholedig Cynghorau Cymuned a Thref. O'r blaen roedd penderfyniadau'r Panel dros Gynghorau Cymuned a Thref yn rhai caniataol a byddai pob Cyngor yn penderfynu p'un ai i ddilyn y penderfyniadau ai peidio. Fodd bynnag, o dan bwerau newydd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, os yw'r Panel yn mabwysiadu'r Penderfyniadau yn dilyn yr ymgynghoriad, byddant yn dod yn rhai gorfodol. Yna ni fydd dewis gan y Cyngor ond gweithredu'r Cynllun taliadau a byddai'n rhaid darparu o fewn y gyllideb ar gyfer cynllun o lwfansau Aelodau.

Nodwyd hefyd fod yn rhaid i Gynghorau Cymuned a Thref gyhoeddi Datganiad o Daliadau erbyn 30 Medi bob blwyddyn. Byddai'r ddogfen hon yn manylu ar bob taliad a wnaed i aelodau etholedig yn y flwyddyn ddinesig flaenorol.

**PENDERFYNWYD**: os yw penderfyniadau'r Panel:
(a) yn dod yn ddeddf: yna rhoi cynllun priodol o Lwfansau Aelodau yn ei le cyn Ebrill 2018 a darparu yn y gyllideb beth bynnag ar gyfer y sefyllfa honno; ac
(b) os yn aros yn ddisgresiynol, yna gweithredu argymhellion yr Is-Bwyllgor; sef:-

1) £150 y flwyddyn i dalu am ffôn, TG a chostau eraill **Argymhelliad** – peidio â mabwysiadu
2) £500 ar gyfer hyd at 3 aelod â chyfrifoldebau arbennig (e.e. cadeirydd pwyllgor **Argymhelliad** – peidio â mabwysiadu
3) Lwfans dinesig i Faer neu Gadeirydd y Cyngor **Argymhelliad** – eisoes yn ei le, adolygu fel y bo'n briodol
4) Lwfans dinesig i'r Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor **Argymhelliad** – eisoes yn ei le, adolygu fel y bo'n briodol
5) Ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth pan ar fusnes swyddogol **Argymhelliad** – eisoes yn ei le, adolygu fel y bo'n briodol
6) Lwfans colled ariannol **Argymhelliad** – peidio â mabwysiadu
7) Ad-dalu costau gofal ar gyfer plentyn neu oedolyn dibynnol hyd at £403 y mis. **Argymhelliad** - mabwysiadu cyn belled â bod yr hawliad mewn ysgrifen ac yn cael ei ategu gan dderbynebau.

**143/17 PENODI ARCHWILYDD MEWNOL**

Adroddodd Clerc y Dref, yn dilyn ymddeoliad Archwilydd Mewnol hir ei wasanaeth i Gyngor y Ddinas, fod prisiau wedi cael eu ceisio gan gyrff cymwys neu briodol a bod y rhain wedi cael eu hystyried yn ofalus gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** penodi Gwasanaeth Archwilio Gwynedd fel Archwilwyr Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

**144/17 GWEFAN/E-BOST**

Adroddodd Clerc y Dref fod y cyfeiriadu gwe newydd yn eu lle erbyn hyn ac yn gweithio – bangorcitycouncil.gov.wales a cyngordinasbangor.llyw.cymru. Yn gysylltiedig â hyn, roedd e-byst newydd y Cynghorwyr yn gweithio hefyd ac yn cael eu harddangos yn ddwyieithog ar y wefan.

**145/17 TOILEDAU CYHOEDDUS**

Yn unol â thrafodaethau blaenorol, roedd Clerc y Dref wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd am ddyfodol y toiledau cyhoeddus yn y Ddinas, gan fod pryder wedi'i fynegi am gyfraniad parhaus Cyngor y Ddinas o £10,000 y flwyddyn heb nemor ddim mewnbwn. Roedd Gwynedd bellach wedi cytuno i ddechrau trafodaethau ar beth fyddai orau i'r Ddinas yn y dyfodol o safbwynt y gwasanaeth hwn.

Soniodd yr Aelodau hefyd am ddod â gwasanaethau eraill i mewn i'r drafodaeth, ond roedd hi'n hanfodol fod dyfodol y cyfleusterau cyhoeddus yn cael ei drafod cyn gynted â phosibl o ystyried y gyllideb.

**PENDERFYNWYD** : y byddai Clerc y Dref yn dechrau trafodaethau ar yr opsiynau o ran cyllido a gwasanaethu'r ddarpariaeth o gyfleusterau cyhoeddus yn y Ddinas.

**146/17 DIWEDDARIAD AM Y PIER - PROSIECT CYFALAF**

Adroddodd Clerc y Dref am y cynnydd ar brosiect adfer y Pier a dywedodd fod gwaith glanhau mecanyddol wedi dechrau ar y durwaith. Adroddodd hefyd fod cyfarfod ar y cyd rhwng Grŵp Cleientiaid y Pier a Chymeradwywr Ariannol y Cyngor wedi cwrdd i drafod yn fanwl y paratoadau, y gwaith hyd yma, y gwersi a ddysgwyd, canfyddiad y cyhoedd, a'r contractau swndio a weldio ymhlith pethau eraill.

Nodwyd fod llawer o gontractau yn dod i'w lle bellach yn dilyn cymeradwyaeth, ar gyfer sgaffaldiau, swndio/glanhau mecanyddol, weldio a chyflenwi a chwistrellu paent. Cymeradwywyd y manylion ariannol gan y Grŵp ac roedd y rhain yn cynnwys ffioedd ymgynghorwyr, arolygon a thalu anfonebau, gwerth £97,358.64 hyd yma, a'r gwariant ymrwymedig, hyd yma o £282,340.72 pellach.

**PENDERFYNWYD:** derbyn yr adroddiad, nodi'r cynnydd a'r cyllid a chymeradwyo'r gweithredoedd.

**147/17 CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL A RHODDION ARIANNOL**

Adroddodd y Clerc fod dau gais am gymorth ariannol wedi'u derbyn.

**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2018.

**148/17 MATERION CYLLID**

Derbyniodd y Pwyllgor:-

a) Anfonebau - talu'r Rhestr Anfonebau ddiweddaraf
b) Cofnodion diweddaru Cyfrifon yr Ail Chwarter am fisoedd 1-6.

Nodwyd fod anfonebau fel y'u ceir ar y rhestr, oedd yn dod i gyfanswm o £15,491.73 wedi cael eu cymeradwyo, a chafwyd rhai cwestiynau ac atebion ar fanylion y Cyfrifon hyd at 30 Medi 2017.

**PENDERFYNWYD** nodi'r taliadau a derbyn y Cyfrifon Chwarterol.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 7.40 pm